Telerau ac Amodau Cerdyn Eryri

Mae'n rhaid dangos y cerdyn wrth geisio mynediad. Mae'n ddilys yn unig wrth geisio mynediad neu wrth wneud pryniant.

Ni ellir trosglwyddo'r cerdyn ac nid yw'n ddilys ar y cyd ag unrhyw gynnig arbennig, disgownt neu gynnig tymhorol arall. Ni roddir unrhyw ad-daliadau ac ni ellir cyfnewid y cerdyn am arian parod. Ni ellir cynnig cerdyn newydd neu ad-daliad yn lle cardiau sydd wedi eu colli neu sydd wedi eu dwyn. Dim ond y defnyddiwr a enwir ar y cerdyn a all ddefnyddio Cerdyn Eryri ac mae busnesau sy'n cymryd rhan yn cadw'r hawl i fynnu gweld dull adnabod.

Nid yw gostyngiadau Cerdyn Eryri yn gymwys ar brisau consesiwn.
Gallwn newid cynigion arbennig ar unrhyw adeg, heb rybudd, felly eich cyfrifoldeb chi yw ailymweld â'r tudalennau hyn yn rheolaidd. Deiliaid tocynnau sydd yn gyfrifol am ddysgu am y cynigion diweddaraf cyn defnyddio'r cerdyn a gallant wneud hynny drwy ymweld â'r wefan www.snowdoniapass.co.uk. Mae'r tîm rheoli yn cadw'r hawl i wrthod anrhydeddu cynnig disgownt sydd wedi dod i ben. Mae mynediad yn parhau i fod yn ôl disgresiwn y rheolwyr ar bob achlysur. Bydd amseroedd agor yn amrywio o bryd i'w gilydd ac rydym yn argymell bod defnyddwyr gwybodaeth ar y wefan hon yn gwirio gyda'r busnes dan sylw cyn ymweld i ganfod beth yw'r sefyllfa bresennol. Rydych yn gwneud unrhyw weithgaredd yn wirfoddol ac ar eich menter eich hun. Nid yw Cerdyn Eryri mewn unrhyw ffordd yn gyfrifol am gyflwr yr atyniadau neu leoliadau neu am weithredoedd trydydd parti neu am anwaith unrhyw Atyniad, lleoliad neu wasanaeth.

Yn ystod cyfnodau o waith cynnal a chadw, arddangosfeydd dros dro a digwyddiadau arbennig, mae'n bosibl na fydd atyniadau a lleoedd o ddiddordeb yn hygyrch. Nid yw anhygyrchedd o'r fath yn rhoi hawl i ddeiliad y cerdyn gael ad-daliad llawn neu rannol ar Gerdyn Eryri. Cyfrifoldeb deiliad y tocyn yw cadarnhau gyda'r busnes dan sylw a fydd yn hygyrch yn ystod amser eu hymweliad.

Drwy brynu Cerdyn Eryri rydych yn cytuno i gadw at y Telerau a'r Amodau hyn.

Rydym yn cymryd gofal wrth lunio gwybodaeth ar gyfer y wefan hon, fodd bynnag, nid yw'r cynnwys yn cael ei warantu. Rydym yn ymwadu atebolrwydd am anaf, colled neu ddifrod sy'n codi o wallau neu hepgoriadau yn y cynnwys neu ddehongliadau ohono. Os credwch fod unrhyw gynnwys yn anghywir, cysylltwch â ni ar post@snowdoniapass.co.uk a byddwn yn ei gywiro cyn gynted â phosibl.

Nid yw Cerdyn Eryri yn atebol mewn unrhyw ffordd am unrhyw gostau, treuliau, difrod, dyled neu anaf a geir yn sgil defnyddio'r cerdyn mewn unrhyw ffordd. Nid yw'r ymwadiad hwn yn cynnwys atebolrwydd am unrhyw esgeulustod gan Gerdyn Eryri. Trwy hyn, mae Cerdyn Eryri yn benodol yn gwadu unrhyw gyfrifoldeb am gamgymeriadau, hepgoriadau neu anghywirdeb yn y deunydd, am gamddehongli ac am unrhyw golled, siom, esgeulustod neu ddifrod arall a achosir trwy ddibynnu ar y deunydd a gynhwysir ar y wefan hon neu unrhyw fethiant neu fethiant honedig wrth gyflenwi'r gwasanaethau y cyfeirir atynt yma, neu pe bai cwmni neu unigolyn y cyfeirir atynt yma yn methdaluyn , diddymu neu'n rhoi'r gorau i fasnachu.

Dylid ceisio cadarnhad gan y sefydliadau dan sylw ynglŷn â chywirdeb yr wybodaeth a pha mor gyfredol ydyw.

Gallwn newid y telerau hyn ar unrhyw adeg, heb rybudd, felly eich cyfrifoldeb chi yw ailymweld â'r tudalennau hyn yn rheolaidd. Efallai y byddwn hefyd yn newid ac yn gwella'r wybodaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael ar y wefan ar unrhyw adeg. Mae dolenni yn ein gwefan i wefannau allanol. Nid oes gennym unrhyw reolaeth dros ba mor ddibynadwy ydynt neu dros eu cynnwys ac nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb drostynt. Nid yw cynnwys dolen allanol yn ardystiad.